Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Goleg Gwent
# Y Rhadyr
# Brynbuga
# NP15 1XJ

## Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2012

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 15/08/2012**

## Cyd-destun

Coleg Gwent yw un o’r darparwyr addysg bellach mwyaf yng Nghymru. Mae’n cyflwyno rhaglenni o bum prif gampws yng Nghasnewydd, Pont-y-pŵl, Cross Keys, Brynbuga a Glynebwy a dwy ganolfan Dysgu TG allymestyn yng Nghwmbrân a Threfynwy. Cofrestrwyd 28,859 o ddysgwyr yn y coleg yn 2010-2011, sy’n gynnydd o 3.7% o’r flwyddyn flaenorol. Roedd dros 10,000 o’r dysgwyr hyn yn dilyn rhaglenni amser llawn. Roedd tua 13% o’r holl ymrestriadau ar lefel mynediad, 26% ar lefel 1, 36% ar lefel 2 a 22% ar lefel 3. Roedd tua 42% o’r holl ddysgwyr yn wrywod a 5% o gefndiroedd pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig.

Mae’r coleg yn gwasanaethu dalgylch eang a phum awdurdod lleol, sef Casnewydd, Torfaen, Trefynwy, Blaenau Gwent a Chaerffili. Mae’r boblogaeth yn yr ardal hon yn cyfateb i ryw 19% o gyfanswm poblogaeth Cymru. Canran y siaradwyr Cymraeg ar hyd a lled y rhanbarth yw tua 12% ac mae tua 6% o ddysgwyr yn y coleg yn siarad Cymraeg. Mae’r coleg yn gwasanaethu sawl ardal o amddifadedd uchel. Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn dangos ardaloedd ag amddifadedd uchel yn Nhorfaen, Caerffili a Blaenau Gwent. Mae’r coleg yn amcangyfrif bod tua 56% o holl ymrestriadau’r coleg o ardaloedd o amddifadedd uchel, sy’n codi i ryw 77% yng nghampws Glynebwy.

Mae canran y boblogaeth oedran gweithio heb unrhyw gymwysterau yn uwch ym Mlaenau Gwent, Casnewydd, Caerffili a Thorfaen nag ardaloedd eraill yng Nghymru. Mae cyfraddau anweithgarwch economaidd ym Mlaenau Gwent, Torfaen a Chaerffili rhwng 25% a 28.8% ac yn uwch na’r 23.5% ar gyfer Cymru. Canran y cartrefi di-waith ym Mlaenau Gwent yw 31.7%, Torfaen 26.7% a Chaerffili 26.4%. Mae’r rhain yn uwch na’r 22.9% ar gyfer Cymru a’r 18.7% ar gyfer y DU. Mae’r Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) ar gyfer Cymoedd Gwent ym 1999, sef £53.3, yn is na gwerth Cymru gyfan, sef £73.3.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y darparwr** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r darparwr** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r perfformiad presennol yn dda oherwydd:

- bod cyfraddau llwyddo ar gyfer bron pob rhaglen ar draws holl gampysau'r coleg yn dda ac wedi dangos tuedd ar i fyny dros y tair blynedd diwethaf;
- bod y coleg yn perfformio'n dda pan gaiff cyfraddau llwyddo eu hystyried yn erbyn colegau eraill yng Nghymru;
- bod y coleg yn perfformio'n dda mewn Safon Uwch o gymharu â darparwyr eraill;
- bod cyfran y dysgwyr sy'n cyflawni graddau uwch ar raglenni galwedigaethol yn dda;
- bod cyfraddau llwyddo ar gyfer Bagloriaeth Cymru yn dda;
- bod dysgwyr o ardaloedd lle mae llawer o amddifadedd yn perfformio'n dda;
- bod bron pob dysgwr yn teimlo'n ddiogel ac maent yn fodlon iawn â'u profiadau yn y coleg; a
- bod y coleg yn rhoi arweiniad a chymorth da i ddysgwyr.

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella'n dda oherwydd:

- bod gan y coleg hanes da mewn gwneud gwelliannau a mynd i'r afael â'r argymhellion o arolygiadau blaenorol Estyn;
- bod y pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn darparu arweinyddiaeth gref a phendant sydd wedi cael effaith sylweddol ar y coleg;
- bod blaenoriaethau a thargedau ar gyfer gwella clir sy'n cael eu cyfleu'n dda, ac mae pob un o'r staff yn eu rhannu ac yn cytuno arnynt;
- bod y coleg yn gwybod yn dda beth yw ei gryfderau a'i wendidau a'r hyn y mae angen iddo'i wneud i wella;
- bod gan y coleg y capasiti a'r adnoddau i gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd;
- bod systemau cadarn ar waith i adolygu cynnydd, nodi meysydd i'w gwella a gweithredu i'w cywiro; a
- bod y corff llywodraethol yn wybodus am waith y coleg ac yn cefnogi a herio'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli i gyflawni'r blaenoriaethau yng nghynlluniau strategol y coleg.

## Argymhellion

A1 Gwella'r safonau a gyflawnir gan ddysgwyr ar draws yr holl feysydd dysgu er mwyn cyflawni'r targedau yn y cynllun strategol.

A2 Gwella ansawdd yr addysgu ym mhob maes rhaglen er mwyn cynyddu cyfran yr addysgu da a rhagorol.

A3 Gwneir yn siŵr bod polisïau medrau yn cael eu defnyddio'n effeithiol i wella medrau llythrennedd a rhifedd yr holl ddysgwyr.

A4 Gwneud y defnydd gorau posibl o'r Cynlluniau Dysgu Unigol electronig ar draws y coleg i osod a monitro targedau dysgwyr a galluogi dysgwyr i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu cynnydd.

A5 Hyrwyddo pwysigrwydd a'r defnydd o'r iaith Gymraeg ar draws y coleg yn unol â strategaeth ddwyieithog y coleg.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd arolygydd cyswllt y coleg yn monitro cynlluniau gweithredu'r coleg a'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion uchod. Bydd angen i'r coleg gyflwyno astudiaeth achos o waith partneriaeth rhagorol a nodwyd gan arolygwyr.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

At ei gilydd, mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cwblhau ac yn ennill eu cymwysterau arnynt yn dda. Mae cyfraddau llwyddo ar bob lefel, ym mhob maes dysgu ac ar gampysau'r coleg wedi dangos tuedd gyson ar i fyny dros y tair blynedd diwethaf. Mae data nas gwiriwyd y coleg yn dangos bod y duedd ar i fyny hon mewn perfformiad dros dair blynedd yn parhau. Mae'r coleg yn cymharu'n dda â cholegau eraill yng Nghymru o'u graddio ar sail eu cyfraddau llwyddo ar gyfer yr holl gyrsiau. Yn yr un modd, mae'r coleg yn yr hanner uchaf o'r holl golegau yng Nghymru pan gânt eu graddio yn ôl cyfraddau llwyddo ar gyfer pob maes dysgu.

Mae'r gyfradd lwyddo ar gyfer holl bynciau Safon Uwch uwchlaw'r gyfradd lwyddo gyfartalog ar gyfer yr holl golegau yng Nghymru a'r gyfradd lwyddo ar gyfer pob darparwr yng Nghymru, ac mae wedi cynyddu'n gyson dros y tair blynedd diwethaf hefyd. Mae'r gyfradd lwyddo ar gyfer pynciau Safon UG wedi cynyddu'n gyson dros y tair blynedd diwethaf yn unol â'r cyfartaleddau ar gyfer Cymru. At ei gilydd, mae dysgwyr yn cyflawni yn agos at y lefelau a ragfynegwyd ar eu cyfer ar lefel Uwch, ar sail eu cyrhaeddiad blaenorol mewn TGAU mewn ysgolion.

Mae canran y dysgwyr sy'n cyflawni graddau uwch ar gymwysterau BTEC Cenedlaethol yn dda, gyda thros 50% o ddysgwyr yn cyflawni tair gradd Teilyngdod neu'n uwch.

Mae cyfraddau llwyddo Medrau Allweddol a Hanfodol yn ddigonol ar y cyfan ac wedi gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn yn unol â chyfraddau llwyddo colegau eraill yng Nghymru.

Mae dysgwyr o gefndiroedd economaidd gymdeithasol cymharol ddifreintiedig yn cyflawni'n dda yn y coleg. Yng nghampws Glynebwy, lle mae dros 77% o ddysgwyr o ardaloedd lle mae llawer o amddifadedd, mae cyfraddau cyrhaeddiad wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac roeddent uwchlaw 90% y llynedd.

Mae dysgwyr sy'n derbyn y Lwfans Cynhaliaeth Addysg neu Grant Dysgu'r Cynulliad yn perfformio'n dda, ac mae cyfraddau llwyddo 4% uwchlaw'r cyfraddau ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn cael y cymorth ariannol hwn. Mae cyfraddau cyflawniad ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC) yn dda ar y cyfan. Yn 2010-2011, ar Lefelau Sylfaen a Chanolraddol, mae cyfraddau llwyddo ymhell uwchlaw cyfartaleddau ar gyfer Cymru. Ar Lefel Uwch, mae cyfraddau cyflawniad ychydig uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Mae cyfraddau llwyddo ar gyfer dysgwyr sy'n wrywod ac yn fenywod yn debyg ar y cyfan. Mae'r cyfraddau llwyddo ar gyfer dysgwyr ethnig lleiafrifol yn debyg i'r cyfraddau ar gyfer dysgwyr eraill yn y coleg.

Mae dysgwyr ar bob lefel yn gwneud cynnydd da yn y dosbarthiadau a arsylwyd ar y cyfan. Maent yn cymryd rhan yn dda yn y dosbarth, yn dangos diddordeb ac yn llawn cymhelliant, ac yn cyfrannu'n dda mewn tasgau dosbarth cyfan, grŵp ac unigol. Mae mwyafrif y dysgwyr yn ateb cwestiynau'n hyderus ac yn siarad yn hyderus am eu gwaith a'r modd y maent yn cymhwyso eu dysgu.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn defnyddio canlyniadau asesu llythrennedd cychwynnol a diagnostig yn dda ac yn gwybod y meysydd llythrennedd penodol y mae angen iddynt eu datblygu. Mae mwyafrif o ddysgwyr yn meddu ar fedrau llafaredd da, maent yn cyfathrebu'n dda yn y dosbarth ac yn defnyddio ystod briodol o eirfa. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos medrau da wrth frasddarllen a sganio testun i gael gwybodaeth. Mae mwyafrif ohonynt yn ysgrifennu'n dda at ystod o ddibenion, ac mae dysgwyr mewn dosbarthiadau UG a Safon Uwch yn dangos medrau llythrennedd lefel uwch. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddysgwyr yn datblygu eu medrau sillafu'n ddigon da, ac mae lleiafrif o ddysgwyr yn gwneud camgymeriadau sylfaenol mewn atalnodi a gramadeg. Nid yw llawer o ddysgwyr yn dilyn cymwysterau cymhwyso rhif ar lefel sy'n berthnasol i'w datblygiad o ran medrau.

Mae nifer fach o ddysgwyr Cymraeg amser llawn yn mynychu'r coleg (llai na 6%). Er nad oes unrhyw ddysgwyr yn cwblhau pob un o'u prif gymwysterau neu ran ohonynt yn ddwyieithog, mae nifer fach ohonynt yn cwblhau unedau Cymraeg yn y Gweithle ac yn defnyddio'r Gymraeg lle bo'n briodol, e.e. mewn Gofal Cwsmeriaid, Gwallt a Harddwch, Gofal Plant ac ar y rhaglen gyfoethogi diwtorial.

**Lles: Da**

At ei gilydd, mae dysgwyr yn mwynhau dod i'r coleg, ac mae eu profiadau'n gadarnhaol ar y cyfan. Mae bron pob dysgwr yn teimlo'n ddiogel iawn a'u bod yn cael eu cefnogi'n dda yn y coleg. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau heriol trwy'r rhaglen gyfoethogi diwtorial a Chraidd Bagloriaeth Cymru sy'n annog agwedd gadarnhaol tuag at fwyta'n iach a ffordd iach o fyw.

Mae dysgwyr yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gweithgareddau ystafell ddosbarth. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr wedi'u cymell i lwyddo ac maent yn awyddus i wneud cynnydd â'u hastudiaethau. Yn gyffredinol, yn yr ystafell ddosbarth ac o amgylch y coleg, mae ymddygiad dysgwyr yn dda iawn, ac maent yn dangos parch at ddysgwyr eraill.

Mae mwyafrif y dysgwyr ar bob lefel yn cymryd rhan yn y Rhaglen Gweithgarwch Cyfoethogi a Chynllun ADEPT (Gweithgareddau, Dyddiadau, Digwyddiadau, Cyflwyniad a Themâu) sy'n eu galluogi i gael profiad gwerthfawr mewn digwyddiadau codi arian, gwirfoddoli a digwyddiadau elusennol sy'n hyrwyddo dinasyddiaeth leol a byd-eang.

Mae gan y rhan fwyaf o ddysgwyr ddealltwriaeth glir o gynrychiolaeth dysgwyr a rôl y Fforwm Dysgwyr. Yn sgil sefydlu'r Is-Grŵp Strategaeth Cynnwys Dysgwyr sy'n cynnwys Llywodraethwr, mae Is-Lywydd Undeb y Myfyrwyr, y Swyddog Sabothol a Llywodraethwyr y Dysgwyr yn datblygu cyfleoedd i wella ac ymateb i Lais y Dysgwr.

Adroddir eu canfyddiadau wrth yr Is-Bwyllgor Cwricwlwm ac Ansawdd yn flynyddol. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn adolygiad dysgwyr, sy'n cyfrannu tuag at adolygiad blynyddol y coleg, ac yn dylanwadu arno.

Mae bron pob dysgwr yn ymwybodol o God Ymddygiad y coleg ac yn cadw ato. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu medrau cymdeithasol a medrau bywyd da. Hyfforddwyd rhai dysgwyr i fod yn Fentoriaid Cyfoedion i weithio a chefnogi dysgwyr sydd mewn perygl o dynnu'n ôl. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cynyddu eu lefelau hyder a hunan-barch trwy'r rhaglen gyfoethogi diwtorial, cymorth tiwtoriaid a gweithgareddau eraill y coleg.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

At ei gilydd, mae'r coleg yn cynllunio'r cwricwlwm yn effeithiol ac yn bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned yn dda. Mae'n cynnig ystod eang o gyrsiau addysg bellach o lefel mynediad i lefel 4 ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys rhaglenni galwedigaethol a thua 35 o bynciau Safon Uwch. Mae'n cyflwyno rhaglenni dysgu yn y gwaith a dysgu oedolion yn y gymuned ac yn cynnig cyrsiau unigol, er enghraifft y rhai a gynlluniwyd yn benodol i gefnogi cynrychiolwyr Undebau Llafur yn eu rolau.

Mae'r coleg yn cydweithio'n dda â darparwyr addysg eraill i ymestyn cyfleoedd dysgu ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 19 oed. Ar hyn o bryd, mae tua 1,300 o ddisgyblion ysgol 14 i 16 oed yn mynychu rhaglenni yn y coleg, ac mae nifer fach o ddysgwyr 16 i19 oed yn mynychu cyrsiau Safon Uwch.

Mae ychydig dros 700 o ddysgwyr ar draws ystod o gyrsiau yn astudio Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC) ar lefelau sylfaen, canolraddol neu uwch. Caiff y ddarpariaeth ei chynllunio'n dda i gynnwys y craidd dysgu ac ehangu profiadau dysgwyr.

Mae dysgwyr nad ydynt yn astudio CBC yn cwmpasu elfennau o'r craidd dysgu trwy raglen gyfoethogi diwtorial strwythuredig a chynhwysfawr iawn ochr yn ochr â'u prif gymwysterau. Maent yn astudio ystod o destunau sy'n berthnasol i'w hanghenion a'u diddordebau, yn cynnwys iechyd a lles personol, cyllid personol, dinasyddiaeth a chydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae pob dysgwr amser llawn yn dilyn rhaglen addysg sy'n gysylltiedig â gwaith. Maent yn cwblhau profiad gwaith priodol lle mae hyn yn elfen orfodol o'u rhaglen. Caiff dysgwyr eraill brofiad ymarferol yn amgylchedd y coleg. Mae dysgwyr yn cwblhau cwrs medrau gwaith, sy'n eu helpu i ddatblygu ystod eang o fedrau y mae eu hangen ar gyfer cyflogaeth.

Rhoddir asesiad cychwynnol i bob dysgwr i nodi ei lefelau llythrennedd a rhifedd. Yn ychwanegol, caiff pob dysgwr asesiad diagnostig ar gyfer llythrennedd. Rhoddir asesiad diagnostig i ddysgwyr sy'n gweithio uwchlaw lefel 1 mewn rhifedd, ond nid yw hyn yn arfer gyson ar draws y coleg.

Mae'r coleg yn defnyddio canlyniadau'r asesiad cychwynnol yn dda i roi gwybod i athrawon am anghenion dysgwyr. Mae llawer o athrawon yn gwneud defnydd da o'r wybodaeth hon ac mae ganddynt strategaethau i helpu dysgwyr ar bob lefel i wella eu medrau llythrennedd. Fodd bynnag, mae ei effeithiolrwydd yn amrywio gormod ar draws y coleg. Megis dechrau defnyddio'r dull hwn i wella medrau rhifedd dysgwyr y mae'r coleg.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn astudio medrau hanfodol ar lefel sy'n gweddu i'w gallu. Mae athrawon yn rhoi medrau hanfodol yn eu cyd-destun ac yn eu hintegreiddio'n dda ym mhrif raglenni dysgwyr.

Caiff addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDFE) ei hymgorffori yn y cwricwlwm, ac mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu dealltwriaeth dda o gysyniadau yn ymwneud ag ADCDFE. Maent yn deall bod angen ailgylchu ac ailddefnyddio deunyddiau, ac yn cymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau thema sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth o ADCDFE. Mae'r coleg yn cefnogi dysgwyr yn dda i gymryd rhan mewn ystod eang o brosiectau a phartneriaethau cymunedol ac ymweliadau cyfnewid dramor.

Mae'r coleg yn datblygu ei ddarpariaeth Gymraeg yn dda. Mae wedi penodi Hyrwyddwr Dwyieithog yn ddiweddar ac mae'n datblygu cysylltiadau da gydag ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg lleol. Mae'r coleg yn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg lle bo'n briodol, er enghraifft trwy unedau Cymraeg yn y Gweithle a thrwy ddefnyddio'r iaith Gymraeg mewn Gofal Plant, Gofal Cwsmeriaid a Gwallt a Harddwch. Mae'r coleg yn cydweithio'n dda gyda dau goleg addysg bellach arall i ddatblygu eu darpariaeth ddwyieithog. Mae'r iaith Gymraeg yn un o'r 12 thema yn y rhaglen gyfoethogi diwtorial ar draws y coleg.

**Addysgu: Da**

At ei gilydd, mae ansawdd yr addysgu'n dda. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol dda ac mae ganddynt berthynas broffesiynol dda gyda'r dysgwyr. Mae llawer o athrawon yn cynllunio gwersi'n dda ac yn gosod nodau ac amcanion clir ar ddechrau eu gwersi.

Mae mwyafrif o athrawon yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau addysgu effeithiol, ac mae rhai athrawon yn defnyddio gweithgareddau ymarferol arloesol i ennyn diddordeb dysgwyr a'u cymell. Mae rhai athrawon yn gwneud defnydd da iawn o Ffurflen Wybodaeth Grŵp y Coleg i nodi'r dysgwyr hynny y gallai fod angen mwy o gymorth arnynt. Mae mwyafrif o athrawon yn addasu gweithgareddau'n dda yn unol â gwahanol alluoedd y dysgwyr. Mewn ychydig iawn o ddosbarthiadau rhifedd, mae athrawon yn defnyddio dulliau eraill o gyfrifo rhifedd fel eu bod yn addas ar gyfer arddulliau dysgu'r dysgwyr. Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, cyflwynir gwersi ar gyflymder da gyda gweithgareddau wedi'u hamseru'n briodol, ac fe gaiff dysgwyr eu herio i gyflawni'n dda. Fodd bynnag, mewn nifer fach o ddosbarthiadau a arsylwyd, mae'r gwersi'n symud yn rhy araf, ac ni chaiff dysgwyr eu herio'n ddigon da i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae mwyafrif yr athrawon yn rhoi digon o gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu medrau meddwl a dysgu annibynnol. Mae llawer o diwtoriaid yn defnyddio technegau holi

llafar da sy’n cael eu cyfeirio at ddysgwyr unigol ac at y dosbarth cyfan i asesu eu dealltwriaeth yn ogystal â’u gwybodaeth bynciol.

Mae llawer o diwtoriaid, yn enwedig mewn meysydd ymarferol, yn cynllunio cyfleoedd asesu yn effeithiol, ac yn efelychu amgylcheddau gweithio go iawn, lle bo’n berthnasol.

Mae bron pob un o’r tiwtoriaid yn marcio gwaith dysgwyr yn brydlon. Mae llawer o athrawon yn rhoi adborth llafar defnyddiol sy’n cefnogi ac yn annog dysgwyr yn dda. Fodd bynnag, mae gormod o bortffolios nad ydynt yn cynnwys sylwadau adeiladol ar gyfer gwella, ac fe gaiff llawer o gamgymeriadau llythrennedd eu gadael heb eu cywiro. Mae mwyafrif o diwtoriaid yn cadw cofnodion effeithiol i olrhain dysgwyr ac maent yn defnyddio’r rhain yn dda i sicrhau bod dysgwyr yn deall eu cynnydd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r coleg yn darparu gofal, cymorth ac arweiniad da ar gyfer pob dysgwr. Mae’n darparu ystod dda o weithgareddau a digwyddiadau hybu iechyd, yn cynnwys digwyddiadau rhoi’r gorau i ysmygu, wythnos hybu iechyd a digwyddiadau Sport Relief. Mae’n sicrhau bod dysgwyr yn cael dewis da o fwydydd iach mewn ffreuturau. Mae’r coleg wedi gosod peiriannau gwerthu sy’n cynnwys dewisiadau bwyta’n iach ar y rhan fwyaf o gampysau. Mae dysgwyr yn rhoi ystyriaeth dda i faterion ffordd iach o fyw wrth gynllunio eu haseiniadau.

Mae rhaglen ymsefydlu ddefnyddiol yn helpu dysgwyr i ymgynefino’n gyflym yn y coleg. Mae bron pob un o’r dysgwyr yn ymwybodol o’r ystod dda o wasanaethau cymorth a ddarperir gan y coleg. Maent yn gwybod sut i ddefnyddio gwasanaethau, ac mae’r rhai sy’n eu defnyddio yn gweld bod y cymorth a gynigir ganddynt yn eu helpu i barhau ar eu cyrsiau.

Caiff dysgwyr gyngor defnyddiol pan fyddant yn gwneud cais i astudio yn y coleg. Mae hyn yn eu helpu i wneud penderfyniadau gwybodus am eu dewis cwrs. Lle bo’n briodol, cânt eu cyfeirio at ddarparwyr arweiniad annibynnol. Mae pob dysgwr yn ymwybodol o’r ymgynghorwyr gyrfaoedd sy’n mynychu’r campysau, ac mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio’r cyfleuster hwn i gynllunio eu dilyniant. Fodd bynnag, nid yw rhai cyrsiau yn gwneud digon i sicrhau bod gan ddysgwyr ymwybyddiaeth ddigonol o’r farchnad lafur a’r cyfleoedd sydd ar gael iddynt ar ôl cwblhau eu hastudiaethau. Mae’r coleg yn rhoi cymorth da i ddysgwyr sy’n bwriadu symud ymlaen i addysg uwch.

Mae athrawon yn monitro presenoldeb dysgwyr yn effeithiol. Dywed y rhan fwyaf o ddysgwyr fod tiwtoriaid yn mynd i’r afael â’u habsenoldeb yn brydlon, ac mae lleiafrif ohonynt yn gwybod y gallant weld gwybodaeth am eu presenoldeb ar-lein. Mae’r coleg wedi cyflwyno system gofrestru electronig a Chynllun Dysgu Unigol electronig (CDUe) yn ddiweddar. Mae’r rhain yn ei gwneud yn haws monitro presenoldeb a chynnydd dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw pob dysgwr yn eu defnyddio’n effeithiol i fonitro a gwella eu cynnydd a’u presenoldeb eu hunain.

Mae gweithdrefnau da ar waith i sicrhau bod dysgwyr yn gwybod beth i’w wneud os ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu bwlio. Ychydig iawn o adroddiadau a geir am

achosion o fwlio yn y coleg. Mae gan y coleg bolisi priodol a gweithdrefnau cynhwysfawr ar gyfer diogelu sy'n cynnwys hyfforddi a recriwtio staff. Caiff gweithdrefnau eu cyhoeddi'n glir ym mhob ystafell ddosbarth. Mae pob un o'r staff yn glir ynglŷn â beth i'w wneud os ydynt yn wynebu mater diogelu. Mae mwyafrif y llywodraethwyr wedi cael hyfforddiant mewn diogelu.

Mae'r coleg yn cefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Mae bron pob un o'r staff yn teilwra cymorth yn unol ag anghenion dysgwyr unigol, gan ddefnyddio sesiynau tiwtorial yn dda i fonitro cynnydd dysgwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Maent yn cysylltu'n dda â gweithwyr cymorth i ymateb i faterion sy'n codi sy'n ymwneud â dysgwyr agored i niwed. Mae rhaglenni cymorth ymddygiad defnyddiol iawn ar ddau gampws, sy'n helpu dysgwyr i reoli eu hymddygiad a pharhau â'u cyrsiau. Mae un campws yn cyflwyno fforwm 'tîm o amgylch y plentyn' sydd o bosibl yn ddefnyddiol i gydlynu cymorth dysgwyr. Mae'r coleg yn darparu cymorth defnyddiol, targedig ar gyfer dysgwyr ag anhwylder y sbectrwm awtistig.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r coleg yn dangos ymrwymiad cryf i gynhwysiant, ac mae'n hyrwyddo ethos o gydraddoldeb ac amrywiaeth yn dda. Mae'n darparu amgylchedd cynhwysol ar gyfer pob un o'i ddysgwyr. Mae gan ddysgwyr ddealltwriaeth dda o gydraddoldeb, ac mae ganddynt lefel uchel o barch at ei gilydd a'u tiwtoriaid. Mae'r coleg wedi datblygu ystod dda o bolisïau sy'n rhoi cymorth clir ac yn ategu eu hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd rhag aflonyddwch yn y coleg.

Mae gan y coleg grwpiau amrywiaeth staff a myfyrwyr ar bob campws sy'n adrodd wrth y Grŵp Llywio Amrywiaeth. Mae'r coleg wedi cyflwyno hyfforddiant defnyddiol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth i bob un o'r staff a'r rheolwyr. Mae rheolwyr y coleg yn monitro effaith eu polisïau trwy ddadansoddi data ar berfformiad gwahanol grwpiau o ddysgwyr yn ofalus. Mae hyn yn cynnwys dadansoddi perfformiad dysgwyr yn ôl rhywedd, oedran, ethnigrwydd, angen cymorth medrau sylfaenol, cod post a statws cymorth ariannol. Mae staff y coleg yn gweithio'n agos gyda'u byrddau lleol Diogelu Plant. Mae'r coleg yn gweithio'n agos gyda phum adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol i wneud yn siŵr eu bod yn rhoi cymorth priodol i ddysgwyr sy'n gadael gofal. Mae hyn yn galluogi'r coleg i nodi'r dysgwyr hyn yn gynnar i wneud yn siŵr bod cymorth priodol ar waith cyn iddynt ddechrau eu cwrs coleg.

At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau ar draws safleoedd y coleg yn briodol ac yn darparu amgylchedd dysgu croesawgar, yn enwedig yn y cyfleusterau diweddaraf a adeiladwyd, sydd o ansawdd uchel. Fodd bynnag, mae gan y coleg strategaeth ystadau fanwl sy'n cynnwys cynlluniau cynhwysfawr i ddatblygu'r meysydd hyn yn feysydd addysgu a dysgu o ansawdd uchel.

Mae adnoddau da yn y rhan fwyaf o ystafelloedd dosbarth a gweithdai, ac mae ganddynt ddigon o offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) o safon briodol sy'n bodloni anghenion dysgwyr.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r coleg wedi bod trwy gyfnod o newid a gwelliant cyflym ers penodi'r pennaeth presennol lai na dwy flynedd yn ôl. Mae'n darparu arweinyddiaeth gref a phendant ac mae wedi dylanwadu'n sylweddol ar ddiwylliant y coleg. Mae'r weledigaeth a'r genhadaeth ddiwygiedig yn ei gwneud yn glir mai ymdrechu am ragoriaeth i bob dysgwr sydd wrth wraidd pob agwedd ar weithrediadau'r coleg. Mae'r newidiadau hyn wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar bob rhan o'r ystod eang o weithgareddau yn y coleg, ac mae rheolwyr a staff yn teimlo bod ganddynt rym i ysgogi newid.

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn gweithio gyda'i gilydd yn dda iawn i osod a chyflawni blaenoriaethau strategol y coleg. Gwnaed ychydig iawn o newidiadau i aelodaeth yr uwch dimau rheoli a'r timau rheoli canol yn ddiweddar. Addaswyd eu rolau, eu cyfrifoldebau a'u llinellau adrodd yn sylweddol i adlewyrchu'r angen i wella cyfathrebu a gwella ethos cyfan y coleg. O ganlyniad, mae pob un o'r staff yn glir ynglŷn â'r llinellau atebolrwydd ar gyfer pob agwedd ar eu gwaith erbyn hyn. Mae'r cyfathrebu rhwng rheolwyr a staff ar draws holl safleoedd y coleg yn dda iawn, ac mae menter 'Buzz the Boss' yn galluogi pob un o'r dysgwyr a'r staff i gysylltu â'r pennaeth am unrhyw agwedd ar fywyd coleg y maent am ei gweld yn gwella. Cânt ymatebion amserol ac adeiladol i'w pryderon gan y rheolwr perthnasol.

Mae'r coleg yn defnyddio data rheoli yn dda iawn i fesur a herio pob agwedd ar berfformiad yn erbyn set briodol o ddangosyddion perfformiad allweddol. Mae'r wybodaeth ar gael yn hawdd i bob rheolwr trwy'r 'Siop Un Stop' ar gyfer data'r coleg. Mae rheolwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda iawn lle nad yw perfformiad ar y trywydd iawn. Ymchwilir yn ofalus ac yn systematig i'r rhesymau dros unrhyw wyro negyddol oddi wrth dargedau, a chymerir camau priodol yn gyflym ac yn eglur. Mae'r camau hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol iawn ar gyfraddau llwyddo'r rhan fwyaf o ddysgwyr. Fodd bynnag, nid yw'r camau yn gwbl effeithiol ym mhob rhan o waith y coleg eto. Mae uwch reolwyr yn glir ynglŷn â'r hyn y mae angen i'r coleg ei wneud i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a chefnogi staff i gyflawni eu rolau.

Mae systemau a gweithdrefnau rheoli'n glir ac wedi'u deall yn dda ar y cyfan. Mae staff yn gwybod beth sy'n ddisgwyliedig ohonynt wrth herio dysgwyr i gyflawni'r deilliannau gorau posibl o ran safonau ac ymddygiad o amgylch y coleg.

Mae'r coleg yn gweithio'n effeithiol iawn i fodloni anghenion ei gymunedau niferus a phum awdurdod lleol partner. Mae'r camau a gymerir gan y coleg i wella profiadau a deilliannau dysgwyr yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer trawsnewid addysg yng Nghymru yn dda iawn.

Mae'r corff llywodraethol yn rhagweithiol a heriol. Mae'n gosod cyfeiriad strategol clir a phriodol ar gyfer y coleg. Mae'n cefnogi tîm rheoli'r coleg yn dda i gyflawni eu cyfrifoldebau. Rhoddir gwybodaeth dda iawn am bob agwedd ar waith y coleg i aelodau o'r corff llywodraethol, yn enwedig mewn perthynas â deilliannau dysgwyr. Maent yn rhoi eu cyfrifoldebau am y cwricwlwm ac ansawdd wrth wraidd gweithrediadau'r corff llywodraethol.

Mae'r corff llywodraethol yn gwneud ei waith yn effeithlon ac yn economaidd iawn, a chefnogir pob papur gyda chrynodeb gweithredol cryno i gefnogi'r penderfyniadau a wneir. Mae aelodau o'r bwrdd yn defnyddio cyfrifiaduron tabled yn effeithiol i ddefnyddio, craffu ar, a thrafod holl bapurau'r bwrdd yn electronig. Maent wedi gwneud trefniadau cadarn a phriodol ar gyfer asesu eu heffeithiolrwydd eu hunain.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan y coleg drefniadau da ar gyfer monitro a gwella ansawdd a safonau. Caiff yr adroddiad hunanasesu a'r cynlluniau datblygu ansawdd eu defnyddio'n effeithiol gan y coleg i wella ansawdd a chynllunio strategol.

Mae hunanasesu blynyddol yn rhan annatod o gynllunio strategol y coleg. Mae'r cynlluniau gweithredol ar gyfer y coleg wedi'u cysylltu'n glir ag amcanion adrannol. At ei gilydd, caiff amcanion y coleg eu cefnogi'n dda iawn ar lefel adrannol a chwrs.

Mae hunanasesu'n dechrau ar lefel tîm cwrs ac fe gaiff ei lywio'n dda gan gyfleuster data canolog y coleg. Mae'r cyfleuster hwn yn darparu data cywir a chlir i gefnogi gwella ansawdd. Mae barnau mewn adroddiadau hunanasesu cyrsiau ac ysgolion wedi'u seilio ar dystiolaeth o holiaduron i ddysgwyr, y deilliannau o arsylwi sesiynau addysgu, dangosyddion gwerth ychwanegol a deilliannau dysgwyr. Caiff y rhain eu cymharu'n dda gyda meincnodau cenedlaethol a thargedau a gytunwyd gan y coleg er mwyn mesur cynnydd.

Mae pob un o'r staff yn cymryd rhan mewn hunanasesu. Caiff timau cyrsiau, ysgolion, cyfadrannau a meysydd swyddogaethol eu cefnogi'n dda iawn gan reolwyr campysau a'r tîm ansawdd i baratoi eu hunanasesiadau. Caiff adroddiadau hunanasesu eu dilysu gan y panel dilysu hunanasesu sy'n cynnwys y Pennaeth, yr Is-Bennaeth (Cwricwlwm ac Ansawdd), a'r tîm ansawdd. Mae'r cyfarfodydd hyn yn fanwl a heriol iawn. Mae pob un o reolwyr y coleg yn cyfrannu at adroddiad hunanasesu'r coleg cyfan. Mae'r adroddiad yn cynnwys cynllun datblygu ansawdd manwl a ddefnyddir fel dogfen weithio i ysgogi gwelliannau mewn ansawdd a safonau. Mae'r cynlluniau hyn yn llywio dirprwyo cyllidebau ar lefelau gweithredol.

Mae'r coleg yn cynnal rhaglen dreigl sefydledig ac effeithiol iawn o adolygiadau mewnol. Mae'r coleg yn gwneud defnydd da iawn o'r arbenigedd sydd ar gael o golegau eraill a'r rhai a gefnogir trwy wasanaethau hunanreoleiddio Colegau Cymru yn eu hadolygiadau cenedlaethol. Mae'r ymglymiad allanol hwn wedi gwella trylwyredd yr adolygiadau, yn enwedig ar gyfer coleg aml-gampws.

Mae'r coleg wedi cyflwyno Menter Arwain Dysgu i wella ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Mae hyn yn cynnwys penodi mentoriaid dysgu a rhaglen achrededig ar gyfer hyfforddi arsylwyr. Ers cyflwyno polisi arsylwi diwygiedig, mae data canfyddiad myfyrwyr yn dangos gwelliant yn y meysydd hynny sy'n gysylltiedig ag addysgu, ac mae arsylwadau ystafell ddosbarth mewnol yn dangos nifer well o farnau uwch ar gyfer ansawdd yr addysgu.

Mae'r coleg wedi gwella ei berfformiad cyffredinol yn sylweddol mewn cyfnod cymharol fyr, ac wedi ymateb yn dda iawn i argymhellion diweddaraf adroddiadau Estyn. Mae'r adroddiad hunanasesu yn rhoi disgrifiad gonest a gwir o gryfderau a gwendidau'r coleg. Gwelir cyfatebiaeth agos rhwng adroddiad hunanasesu'r coleg a chanfyddiadau tîm arolygu Estyn.

**Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol**

Mae'r coleg wedi datblygu trefniadau partneriaeth rhagorol gyda'r gymuned leol a'r busnesau y mae'n eu gwasanaethu. Mae'r partneriaethau hyn wedi'u seilio ar ymddiriedaeth a chydweithrediad ar y ddwy ochr. Mae'r Dirprwy Bennaeth, ynghyd â'r uwch dîm rheoli, wedi adeiladu perthnasoedd strategol a gweithredol llwyddiannus iawn gyda'r pum awdurdod lleol, ysgolion cynradd ac uwchradd, darparwyr addysg bellach ac addysg uwch, darparwyr dysgu yn y gwaith a darparwyr dysgu oedolion yn y gymuned.

Mae'r coleg yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddatblygu partneriaethau a mentrau newydd i wella cyfleoedd dysgu ar gyfer pob dysgwr. Mae'r coleg yn cymryd rôl weithredol mewn cynllunio ac arfarnu'r ddarpariaeth 14-16 yn y pum ardal awdurdod lleol. O ganlyniad i'r cydweithio hwn, mae'r coleg wedi cyfrannu at y gostyngiad sylweddol yn nifer y dysgwyr yn ardal Gwent Fwyaf sy'n gadael yr ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig neu sydd mewn perygl o ddod yn NACH ('nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant').

Mae gan y coleg ran allweddol yn natblygiad y Parth Dysgu ym Mlaenau Gwent. Bydd y Parth Dysgu yn cynnig darpariaeth drydyddol gynhwysfawr yn yr ardal o Fedi 2012. Mae penaethiaid a staff y coleg wedi gweithio gyda'i gilydd yn galed ac yn effeithiol i gael gwared ar y rhwystrau rhwng addysg a hyfforddiant cyn ac ôl-16. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i gynllunio'r broses bontio ar gyfer y disgyblion Blwyddyn 11 presennol. Mae'r Dirprwy Bennaeth yn mynychu'r Grŵp Trefniadau Pontio, sy'n dod â'r penaethiaid a staff allweddol yr awdurdodau lleol at ei gilydd i gydlynu datblygiad y Parth Dysgu. Mae'r trefniadau hyn yn hynod effeithiol.

Mae'r coleg yn aelod gweithgar o Raglen Addysg Blaenau'r Cymoedd (HoVEP). Nod penodol y bartneriaeth strategol hon rhwng dau goleg a dau awdurdod lleol yw gwella cyfranogiad a safonau ar gyfer dysgwyr mewn ardaloedd lle mae llawer o amddifadedd. Mae ganddynt bartneriaethau cryf ac effeithiol gyda'r ddwy Brifysgol ym menter Prifysgol Blaenau'r Cymoedd hefyd. Mae'r rhain yn rhoi cyfleoedd dilyniant rhagorol i ddysgwyr o'r ystod eang o raddau sylfaen a gynigir gan y coleg. Mae gan y coleg bartneriaethau cryf ac effeithiol gyda Phrifysgol Cymru Casnewydd ac mae'r coleg yn ariannu dau benodiad staff ar y cyd â'r brifysgol.

Mae gan y coleg berthnasoedd effeithiol iawn a hirsefydledig gyda chyflogwyr lleol a chenedlaethol. Mae staff y coleg ar draws yr holl gampysau yn gweithio'n dda gyda'r Uned Datblygu Busnes i gynnig cyfleoedd profiad gwaith i ddysgwyr sy'n berthnasol i'r rhaglen hyfforddi a ddewiswyd ganddynt. Caiff y coleg ei gynrychioli'n dda yng nghyfarfodydd rhwydwaith y cyngor sgiliau sector. Mae uwch staff yn rhagweithiol o ran datblygu a dylanwadu ar bolisi a chyfeiriad i fodloni anghenion cyflogwyr.

Mae gan y coleg berthnasoedd sefydledig ar gyfer cyflwyno darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned a Chymraeg i Oedolion ar hyd a lled ardal Gwent Fwyaf. Mae'r partneriaethau hyn yn darparu cyfleoedd dysgu i fodloni anghenion ystod eang iawn o ddysgwyr sy'n oedolion.

Mae nifer gynyddol o gwmnïau allanol yn cyfrannu'n effeithiol at ariannu adnoddau a lleihau costau i'r coleg. Er enghraifft, mae cwmnïau bysiau yn gweithio gyda'r coleg i

ddatblygu cynlluniau teithio mwy effeithlon ar gyfer dysgwyr ac mae nawdd medrau adeiladu yn cael ei ddatblygu i ddarparu mwy o gyfleusterau ac offer ar gyfer dysgwyr adeiladu.

Mae rheolwr Medrau Hanfodol y coleg yn gweithio'n dda mewn partneriaeth â thri choleg arall i rannu canlyniadau asesiadau cychwynnol a datblygu meini prawf meincnod i wella deilliannau dysgwyr. Yn yr un modd, mae Hyrwyddwr Dwyieithog y coleg yn datblygu darpariaeth ddwyieithog ar y cyd â dau goleg arall addysg bellach.

Mae staff a myfyrwyr y coleg yn trefnu ac yn rheoli'r Wythnos Profiad Cefn Gwlad a gynhelir bob blwyddyn. Mae'r gwaith yn cryfhau partneriaethau gydag ysgolion cynradd lleol i ganolbwyntio ar faterion amgylcheddol, ac mae'n rhoi profiad ehangach i blant o ddysgu yn y gymuned a'r coleg.

**Rheoli adnoddau: Da**

At ei gilydd, caiff adnoddau eu rheoli'n dda. Mae'r coleg wedi datblygu systemau cynhwysfawr a chadarn ar gyfer rheoli ei adnoddau ariannol. Mae'n defnyddio'r cyllid hwn yn dda i wella ei ystâd a gwella adnoddau ac offer ar gyfer addysgu a dysgu.

Mae cynllunio ariannol cryf y coleg a dyrannu adnoddau wedi'u cysylltu'n glir â'i gynllun strategol. Mae rheolwyr yn dyrannu cyllidebau yn effeithiol ac yn monitro gwariant ar draws y coleg yn ofalus. Maent wedi datblygu dull strategol, clir o gynllunio'r cwricwlwm i wneud y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau ar draws y coleg. Mae rheolaeth ariannol effeithiol wedi arwain at gynyddu niferoedd y dysgwyr yn y coleg tra'n cynnal sylfaen gostau sefydlog.

Mae'r rhan fwyaf o staff yn meddu ar gymwysterau da. Mae'r coleg yn cyflogi nifer briodol o staff cymwys a phrofiadol i gyflwyno'r cwricwlwm. Mae'n defnyddio'r staff hyn yn effeithiol i wneud y defnydd gorau o'u medrau a'u harbenigedd.

Caiff anghenion datblygiad proffesiynol parhaus staff eu nodi'n dda trwy gynlluniau strategol a gweithredol a gwerthusiadau staff blynyddol. Mae'r cynllun Dysgu a Datblygu blynyddol yn diffinio'n glir y blaenoriaethau hyfforddi allweddol i staff ar bob lefel, fel y Fenter Arwain Dysgu.

Mae'r coleg yn gwneud defnydd da o ffynonellau cyllid eraill. Er enghraifft, mae uwch reolwyr wedi defnyddio cyllid grant gan Lywodraeth Cymru yn dda i benodi hyrwyddwr dwyieithog ac ymgymryd â nifer o brosiectau adeiladu.

Mae'r coleg wedi datblygu strategaeth ystadau gynhwysfawr. O ganlyniad, mae'r coleg yn gwella ansawdd ei ystad yn sylweddol. Mae adnoddau da ym mwyafrif yr ystafelloedd dosbarth a'r gweithdai. Ar draws safleoedd y coleg, mae ystod addas o offer TGCh ar gael i ddysgwyr a staff.

At ei gilydd, mae rheolaeth iechyd, diogelwch ac amgylcheddol y coleg yn dda iawn, ac mae'r coleg wedi ymrwymo i gefnogi mentrau cynaliadwy.

At ei gilydd, mae deilliannau da ar gyfer dysgwyr, ac mae ansawdd yr addysgu'n dda. Mae'r coleg yn rheoli ei gyllid a'i adnoddau'n dda ac felly'n darparu gwerth da am arian ar gyfer ei ddysgwyr.

## Atodiad 1

**Boddhad dysgwyr**

Mae’r holiaduron i ddysgwyr yn dangos bod dysgwyr yn fodlon â’u profiadau yn y coleg. Byddai bron pob dysgwr yn argymell y coleg i bobl eraill. Mae bron pob un o’r dysgwyr yn teimlo y cawsant wybodaeth dda gan y coleg wrth ddewis eu rhaglen ddysgu a chyngor da ynglŷn â’r hyn y gallant ei wneud pan fyddant yn gorffen eu rhaglen ddysgu. Mae bron pob un o’r dysgwyr yn cytuno eu bod yn cael cymorth personol da gan eu tiwtoriaid a chan staff eraill yn y coleg. Mae bron pob un o’r dysgwyr yn cytuno bod staff yn dangos parch atynt a’u bod yn gwrando’n dda ar eu pryderon ac yn gweithredu yn unol â safbwynt y dysgwyr. Ymatebodd bron pob un o’r dysgwyr trwy ddweud eu bod yn teimlo’n ddiogel ac yn rhydd rhag aflonyddwch yn y coleg a’u bod yn mwynhau eu dysgu. Nododd bron pob un o’r dysgwyr fod eu dysgu wedi eu helpu i wella eu hagweddau at gadw’n iach a diogel.

## Atodiad 2

At ei gilydd, mae’r cyfraddau y mae dysgwyr yn cwblhau ac yn ennill eu cymwysterau arnynt yn dda. Mae cyfraddau llwyddo wedi gwella’n gyson flwyddyn ar ôl blwyddyn yn unol â cholegau eraill yng Nghymru. Maent wedi cynyddu o 70% yn 2007-2008 i 82% yn 2009-2010. Yn yr un modd, mae cyfraddau cwblhau wedi gwella o 89% i 90% a chyfraddau cyrhaeddiad o 84% i 91% dros yr un cyfnod o dair blynedd. Mae’r rhain yn cyd-fynd yn fras â’r cynnydd mewn colegau eraill yng Nghymru. Mae cyfraddau llwyddo ar bob lefel ac mewn meysydd dysgu wedi dangos cynnydd tebyg dros yr un cyfnod o dair blynedd. Mae meysydd nas gwiriwyd y coleg yn dangos bod y duedd ar i fyny hon mewn perfformiad dros dair blynedd yn parhau. O’i raddio yn erbyn yr holl golegau eraill yng Nghymru ar y cyfraddau llwyddo ar gyfer pob cwrs, mae’r coleg yn safle 11 o 24. Yn yr un modd, mae’r coleg yn yr hanner uchaf o’r holl golegau yng Nghymru ar gyfer y rhan fwyaf o feysydd dysgu o’i raddio yn ôl cyfraddau llwyddo ar gyfer pob maes dysgu.

Mae canran y dysgwyr sy’n cyflawni A*-E ac A*-C mewn Safon Uwch wedi cynyddu’n gyson dros y tair blynedd diwethaf yn unol â’r cyfartaleddau ar gyfer Cymru. Yn yr un modd, mae canran y dysgwyr sy’n cyflawni A*-E mewn Safon UG wedi cynyddu’n gyson dros y tair blynedd diwethaf yn unol â’r cyfartaleddau ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, mae canran y dysgwyr sy’n cyflawni A*-C mewn Safon UG wedi bod islaw cyfartaledd Cymru ar gyfer yr un cyfnod. Dengys data ALPS fod mwyafrif y dysgwyr yn cyflawni yn unol â’r hyn a ragfynegwyd gan eu canlyniadau TGAU blaenorol mewn ysgolion.

Mae canran y dysgwyr sy’n cyflawni tair gradd Anrhydedd ar gymwysterau Cenedlaethol BTEC yn dda, sef 30%, gyda thros 50% yn cyflawni tair gradd Teilyngdod neu’n uwch.

Mae cyfraddau llwyddo medrau allweddol yn ddigonol ar y cyfan ac maent wedi gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn, yn unol â chyfraddau llwyddo colegau eraill yng Nghymru.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Huw Collins AEM | Arolygydd Cofnodol |
| Bernard Hayward AEM | Arolygydd Tîm |
| Gill Sims AEM | Arolygydd Tîm |
| Eleanor Davies AEM | Arolygydd Tîm |
| Christine Hooper AEM | Arolygydd Tîm |
| Sandra Barnard AEM | Arolygydd Tîm |
| Alun Connick AEM | Arolygydd Tîm |
| Mark Evans AEM | Arolygydd Tîm |
| Jackie Doodson | Arolygydd Cymheiriaid |
| Frank Mellers | Arolygydd Cymheiriaid |
| Eurwyn Edwards | Arolygydd Cymheiriaid |
| Fran Green | Arolygydd Cymheiriaid |
| Lesley Tipping | Arolygydd Cymheiriaid |
| Nora Richardson | Arolygydd Cymheiriaid |
| Peter Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Nicola Gamlin | Enwebai'r Darparwr |